

# Llunio Cod Ymddygiad wrth Deithio newydd i Gymru gyfan

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Rebecca Williams

Eich sefydliad (os yw'n berthnasol): UCAC

e-bost /rhif ffôn: [rebecca@ucac.cymru](mailto:rebecca@ucac.cymru) / 01970 639950

Eich cyfeiriad:

UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **10 Chwefror 2016** i:

John Griffiths  
Y Tîm Teithio gan Ddysgwyr  
Yr Is-adran Trafnidiaeth Gyhoeddus  
Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: [TravelBehaviourCodeMailbox@cymru.gsi.gov.uk](mailto:TravelBehaviourCodeMailbox@cymru.gsi.gov.uk)

**Cwestiwn 1** – Ydych chi'n teimlo bod y cynigion hyn yn syniad da? Pam?

Ar y cyfan, cytunwn â'r cynigion hyn.

Gan fod tystiolaeth nad yw'r Cod yn ei ffurf bresennol yn effeithiol, mae'n bwysig ei adolygu a chyflwyno cynigion newydd.

Mae'r cynigion newydd yn ymddangos yn synhwyrol, yn rhesymol ac yn gymesur. Cytunwn yn gryf â'r cynnig i gryfhau'r darpariaethau o ran bwlio, ac i greu cysylltiad cryfach gyda pholisïau eraill yr ysgol a fframweithiau ehangach.

**Cwestiwn 2** – Pa gynigion pellach ydych chi'n eu hargymell ar gyfer delio â bwlio/ymddygiad gwrth-gymdeithasol ar y daith o'r cartref i'r ysgol?

Mae gan rai ysgolion system 'buddies', ble mae disgybl hŷn a disgybl iau yn cael eu paru. Mae gan y disgybl hŷn rôl o ran cadw golwg dros y disgybl iau, ac mae'r disgybl iau yn gwybod y gall fynd at y disgybl hŷn i drafod unrhyw bryderon neu gwestiynau.

Mi fyddai modd ymestyn cynllun o'r fath i gynnwys teithiau i'r ysgol, dim ond i'r ysgol ofalu bod y paru'n digwydd rhwng disgyblion sy'n cyd-deithio.

**Cwestiwn 3** – Pa ddulliau neu strwythurau newydd fydddech chi'n eu hychwanegu i'r fframwaith cynorthwyol arfaethedig ar gyfer y Cod Ymddygiad wrth Deithio?

Awgrymwn y dylid darparu dogfennau a chymalau parod i ysgolion er mwyn hwyluso'r gwaith o gyflwyno newidiadau e.e. contractau ymddygiad wrth deithio, a chymalau newydd ar gyfer polisïau ymddygiad ysgolion.

Byddai angen rhoi'r rhyddid i ysgolion i amrywio'r geiriad yn ôl ei disgresiwn i gyd-fynd â'u hamgylchiadau penodol – ond mi fyddai'n sicr yn gam tuag at sicrhau cysondeb, ac osgoi dyblygu gwaith diangen.

O ran y contractau ymddygiad, gellid ystyried cynnwys gwisgo gwregys wrth deithio ar fws. Petai modd cynyddu'r defnydd o wregysau, tybiwn y byddai cynnydd sylweddol o ran diogelwch, yn ogystal â lleihad mewn ymddygiad gwrth-gymdeithasol gan na fyddai disgyblion yn symud o gwmpas cymaint.

**Cwestiwn 4** – Yn ogystal â dysgwyr o Flwyddyn 11, 12 neu 13, pwy arall allai weithredu fel swyddogion bws i oruchwylio'r daith o'r cartref i'r ysgol? Pam?

Nid yw cyllidebau'n caniatáu talu oedolyn i fod ar bob bws ysgol, felly, dan yr amgylchiadau ar hyn o bryd, cytunwn mai disgyblion hŷn yw'r opsiwn gorau.

Mi fydd yn hanfodol cynnig hyfforddiant i'r swyddogion bws, er mwyn sicrhau eu bod yn deall sut i ymateb yn briodol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, a'u bod yn osgoi gwaethygu'r sefyllfa neu rhoi eu hunain mewn perygl. Bydd angen sicrhau systemau cefnogaeth/gofal iddynt rhag ofn eu bod nhw eu hunain yn wynebu trafferthion neu fwlio yn sgil eu rôl o gyfrifoldeb.

Fel yr awgrymwyd uchod, gellid ystyried ymestyn/cyflwyno system 'buddies' – byddai hynny'n golygu bod gofal unigol dros y disgyblion iau a chyfrifoldeb yn cael ei rannu'n ehangach rhwng y disgyblion hŷn.

**Cwestiwn 5** – Rydym am i'r Cod Ymddygiad wrth Deithio fod yn berthnasol i blant a phobl ifanc. Yn eich barn chi, beth yw'r ffyrdd gorau o gynllunio ac ail-frandio'r Cod Ymddygiad wrth Deithio newydd?

Mae angen i'r Cod fod yn gryno – neu bod fersiwn gryno ohono ar gael.

Gellid ystyried argraffu'r prif bwyntiau ar gefn 'bus-passes' disgyblion, ble mae'r rheiny'n bodoli.

**Cwestiwn 6** – Sut mae modd codi ymwybyddiaeth o'r Cod Ymddygiad wrth Deithio a deunyddiau/canllawiau ategol a chael pobl i'w ddeall yn well?

Gellid defnyddio'r cyfnod pontio rhwng y cynradd a'r uwchradd i sôn am y Cod. Byddai hynny'n rhoi cyfle i bwysleisio'i bwysigrwydd – o ran y disgwyliadau o ran ymddygiad, yn ogystal â sut i godi unrhyw bryderon neu gwynion ynghylch ymddygiad disgyblion eraill.

Mae angen i'r Awdurdod Lleol a'r ysgol gynnwys gwybodaeth am y Cod wrth ymgysylltu â rhieni, er mwyn sicrhau bod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ganddynt o'i ddisgwyliadau a chyfundrefnau.

**Cwestiwn 7** – Pa effeithiau fydd y cynigion hyn yn eu cael ar yr iaith Gymraeg a siaradwyr Cymraeg? Ydych chi'n rhagweld unrhyw effaith bositif/niweidiol ar yr iaith Gymraeg ac ar siaradwyr Cymraeg? Rhowch resymau am eich ateb.

Gan nad yw'n glir bod iaith yn un o'r nodweddion a ddiogelir o dan Deddf Cydraddoldeb 2010, a gan bod iaith yn gallu bod yn destun gwawd ac o bosib bwlio yn enwedig pan fydd disgyblion o wahanol ysgolion yn cyddeithio, mi allai fod yn werth ychwanegu cyfeiriad at hynny mewn unrhyw bolisiau/cymalau/canllawiau a ddarperir dan y cynigion newydd.

Mi allai'r cynigion newydd leihau gwawdio a bwlio ar sail iaith gan y gobeithir y byddant yn gyffredinol fwy effeithiol na'r Cod ar ei ffurf bresennol.

**Cwestiwn 8** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Bydd yn hanfodol sicrhau mewn unrhyw ddogfennaeth newydd bod y ffiniau rhwng cyfrifoldebau'r ysgol a'r Awdurdodau Lleol yn gwbl glir. Bydd hynny'n osgoi unrhyw amwysedd neu ddryswch, ac yn ei gwneud yn fwy tebygol y gweithredir y gofynion yn drwyadl ac yn hyderus.

Wrth reswm, bydd angen gofal priodol wrth ymwneud â chamerau cylch cyfyng ac unrhyw ddefnydd a wneir o'r deunydd wedi'i recordio. Gallai fod yn werth ail-ddatgan unrhyw reolau/reoliadau am y mater wrth drafod gyda chwmnïoedd cludiant, a rhoi sicrwydd i rieni bod y trefniadau priodol yn eu lle.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrdd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma: